

OFFERYN CADARNHAU

Mae Corff Adnoddau Naturiol Cymru (“Cyfoeth Naturiol Cymru”) wedi gwneud cais i Weinidogion Cymru gadarnhau Is-ddeddfau Gwialen a Llinyn Afonydd Trawsffiniol (Eogiaid a Brithyllod y Môr) (Cymru) 2017, a wnaed gan Gyfoeth Naturiol Cymru ar 8 Tachwedd 2017.

Mae Gweinidogion Cymru, â chydsyniad Cyfoeth Naturiol Cymru, wedi penderfynu cadarnhau Is-ddeddfau Gwialen a Llinyn Afonydd Trawsffiniol (Eogiaid a Brithyllod y Môr) (Cymru) 2017, yn ddarostyngedig i'r amrywiadau a ddisgrifir yn yr Offeryn hwn.

Wrth arfer y pwerau a roddir gan baragraff 2 o Atodlen 26 i Ddeddf Adnoddau Dŵr 1991 ac a freinir bellach ynddynt hwy, mae Gweinidogion Cymru'n cadarnhau Is-ddeddfau Gwialen a Llinyn Afonydd Trawsffiniol (Eogiaid a Brithyllod y Môr) (Cymru) 2017, yn ddarostyngedig i'r amrywiadau canlynol—

1 Teitl ac Is-ddeddf 1 – Teitl

Yn nheitl yr Is-ddeddfau, mae “(Eogiaid a Brithyllod y Môr)” yn y testun Cymraeg wedi ei ddisodli gan “(Eogiaid a Brithyllod y Môr) (Cymru)”.

Yn Is-ddeddf 1, mewnosodir y geiriau “Dyfrdwy a Gwy” ar ôl y gair “Afonydd”.

2 Is-ddeddf 2 – Defnydd

Yn lle'r paragraff olaf, rhodder—

“Daw'r Is-ddeddfau hyn i rym ar 31 Ionawr 2020 a deuant i ben ar 31 Rhagfyr 2029.”

3 Is-ddeddf 3 – Dehongliad

Mae Is-ddeddf 3 wedi ei disodli gan—

“Is-ddeddf 3 – Dehongliad

Yn yr Is-ddeddfau hyn, oni bai bod y cyd-destun yn mynnu'n wahanol—

- (a) ystyr “pryf artiffisial” yw pryf pysgota sydd wedi cael ei adeiladu'n bennaf o ddefnyddiau ffwr a phlu naturiol neu synthetig ac sydd wedi ei gynllunio i ddenu pysgod ac sy'n cynnwys bachyn pysgota.
- (b) ystyr “llith pysgota artiffisial” yw unrhyw ddyfais, gan gynnwys abwydau llwy, troellblu, siglwr a phlwg, neu abwydau pysgod ffug artiffisial wedi eu gwneud o unrhyw ddefnydd a gynlluniwyd i ddenu pysgod ac sy'n cynnwys bachyn pysgota.
- (c) ystyr “abwyd” yw mwydyn, corgimwch a berdysen, boed yn naturiol neu yn artiffisial.
- (ch) ystyr “Afonydd Trawsffiniol” yw'r rhannau hynny o afon Dyfrdwy ac afon Gwy a'u hisafonydd sydd yng Nghymru.
- (d) ystyr “Cyfoeth Naturiol Cymru” yw Corff Adnoddau Naturiol Cymru.
- (dd) ystyr “eogiaid” yw eogiaid o'r rhywogaeth *Salmo salar* ac mae hefyd yn cynnwys rhan o eog.
- (e) ystyr “brithyllod y môr” yw unrhyw bysgodyn o deulu'r eog a adwaenir yn gyffredin fel brithyll y môr neu sewin (brithyll mudol) ac mae hefyd

- yn cynnwys rhan o frithyll.
- (f) ystyr “Is-ddeddfau Gwialen a Llinyn 1995” yw’r Is-ddeddfau sy’n rheoleiddio pysgota â gwialen a llinyn ac sy’n gwneud darpariaethau cyffredinol penodol mewn perthynas â materion pysgodfeydd a wneir gan ranbarth Cymru’r Awdurdod Afonydd Cenedlaethol.
- (ff) Ac eithrio fel a ddarperir uchod neu lle mae’r cyd-destun yn mynnu’n wahanol, bydd yr holl eiriau ac ymadroddion a ddefnyddir yn yr Is-ddeddfau hyn yn cael eu diffinio gan yr ystyr a aseirir iddynt gan Ddeddf Eogiaid a Physgodfeydd Dŵr Croyw 1975, Deddf Adnoddau Dŵr 1991 a Deddf yr Amgylchedd 1995 neu unrhyw addasiadau statudol neu ailddeddfiad ohonynt.”

4 Is-ddeddf 4 – Dal a rhyddhau gyda gwialen a llinyn (eogiaid)

Mae’r gair “catch” yn nhestun Saesneg teitl Is-ddeddf 4 wedi ei ddisodli gan “Catch”.

Rhoddir rhif (1) i baragraff cyntaf Is-ddeddf 4.

Rhoddir rhif (2) i ail baragraff Is-ddeddf 4.

5 Is-ddeddf 5 – Cyfyngiad maint (brithyllod y môr)

Mae Is-ddeddf 5 wedi ei disodli gan—

“Is-ddeddf 5 – Cyfyngiad maint (brithyllod y môr)

Mewnosodir y paragraff canlynol ar ôl Is-ddeddf 7(2) o Is-ddeddfau Gwialen a Llinyn 1995 (Cyfyngiadau Maint – Brithyllod (ac eithrio Brithyllod Seithliw))—

- “(3) Any person who removes any live or dead sea trout of a size larger than 60 centimetres with rod and line from the River Dee and its tributaries in Wales shall be guilty of an offence.

The size shall be ascertained by measuring from the tip of the snout to the end of the tail.

This byelaw shall not apply to any person who lawfully takes any live or dead sea trout of a size larger than 60 centimetres and returns it immediately to the water with the least possible injury.”

6 Is-ddeddf 6 – Dim pysgota ag abwyd

Mae Is-ddeddf 6 wedi ei disodli gan—

“Is-ddeddf 6 – Dim pysgota ag abwyd

(1) Ar ôl paragraff (ac) o Is-ddeddf 2 o Is-ddeddfau Gwialen a Llinyn 1995 (Dehongliad) mewnosodir—

“(ad) the “Cross Border Rivers” means those parts of the River Dee and River Wye and their tributaries in Wales.”

(2) Mae paragraff (a)(3)(ii) o Is-ddeddf 9 o Is-ddeddfau Gwialen a Llinyn 1995 (Defnyddio Llithiau ac Abwyd gyda Gwialen a Llinyn) wedi ei ddirymu.

(3) Mae paragraffau (a)(5)(i) a (ii) o Is-ddeddf 9 o Is-ddeddfau Gwialen a Llinyn 1995 (Defnyddio Llithiau ac Abwyd gyda Gwialen a Llinyn) wedi eu dirymu.

(4) Ar ôl paragraff (a)(2) o Is-ddeddf 9 o Is-ddeddfau Gwialen a Llinyn 1995 (Defnyddio Llithiau ac Abwyd gyda Gwialen a Llinyn) (Eogiaid a Brithyllod) mewnosodir—

“(2A) No person shall fish for, take or attempt to fish for or take any salmon from the River Dee and its tributaries in Wales with rod and line by means of any bait PROVIDED that this restriction shall not apply to a person fishing by means of rod and line with a natural or artificial prawn or shrimp as bait from the 1st September up to and including the 30th September.”

7 Is-ddeddf 7 – Bachau

Mae Is-ddeddf 7 wedi ei disodli gan—

“Is-ddeddf 7 – Bachau

(1) Ar ôl paragraff (a)(1) o Is-ddeddf 10 o Is-ddeddfau Gwialen a Llinyn 1995 (Bachau a Bachu Pysgod) (Bachau heb adfach neu fachau lle y tynnwyd adfachau) mewnosodir—

“(1A) No person shall fish for, take or attempt to fish for or take any salmon or sea trout with rod and line from the Cross Border Rivers except with barbless or de-barbed hooks.”

(2) Ar ôl paragraff (a)(2) o Is-ddeddf 10 mewnosodir—

“(2A) No person shall use more than one hook with a bait; artificial lure; or artificial fly on the River Dee and its tributaries in Wales unless—

- i) On artificial lures, the use is restricted to one single hook only to a maximum gape of 13 millimetres measured from the shank to the point PROVIDED that this restriction to one single hook shall not apply to wobblers, plugs or artificial imitation fish baits which are allowed up to a maximum of 3 single hooks;
- ii) On artificial flies with a gape greater than 7mm measured from the shank to the point, the use is restricted to one single or one double hook;
- iii) On artificial flies with a gape not greater than 7mm measured from the shank to the point, the use is restricted to a maximum of 2 hooks with a

maximum of 4 points,

and in no case shall any bait; artificial lure; or artificial fly be furnished with more than 3 hooks and no weight or sinker shall be attached below the bait; artificial lure; or artificial fly.

(2B) No person shall use more than one hook with an artificial lure or artificial fly on the River Wye and its tributaries in Wales unless—

- i) On artificial lures, the use is restricted to one single hook only to a maximum gape of 13 millimetres measured from the shank to the point PROVIDED that this restriction to one single hook shall not apply to wobblers, plugs or artificial imitation fish baits which are allowed up to a maximum of 3 single hooks;
- ii) On artificial flies with a gape greater than 7mm measured from the shank to the point, the use is restricted to one single or one double hook;
- iii) On artificial flies with a gape not greater than 7mm measured from the shank to the point, the use is restricted to a maximum of 2 hooks with a maximum of 4 points,

and in no case shall any artificial lure or artificial fly be furnished with more than 3 hooks and no weight or sinker shall be attached below the artificial lure or artificial fly.”

(3) Rhoddir rhif (1) i destun presennol paragraff (aa) o Is-ddeddf 10.

(4) Ar ôl paragraff (aa)(1) o Is-ddeddf 10, mewnosodir—

“(2) No person shall fish for, take or attempt to fish for or take any sea trout with rod and line from the Cross Border Rivers by means of any bait furnished other than by a single worm baited on a single barbless or de-barbed hook with the gape of any such hook measured from the shank to the point restricted to 8 millimeters or less.”

(5) Rhoddir rhif (1) i destun presennol paragraff (c) o Is-ddeddf 10.

(6) Ar ôl paragraff (c)(1) o Is-ddeddf 10, mewnosodir—

“(2) No person shall fish for, take or attempt to fish for or take any salmon or sea trout with rod and line from the River Dee and its tributaries using—

- i) an artificial fishing lure (including an artificial

fly) furnished with one or more treble hooks EXCEPT an artificial fly with a gape of not greater than 7mm measured from the shank to the point;

- ii) a bait furnished with a treble hook with a gape of greater than 7mm measured from the shank to the point, or
- iii) a bait furnished with more than one treble hook.”

- (3) No person shall fish for, take or attempt to fish for or take any salmon or sea trout with rod and line from the River Wye and its tributaries in Wales using an artificial fishing lure (including an artificial fly) furnished with one or more treble hooks EXCEPT an artificial fly with a gape of not greater than 7mm measured from the shank to the point.”

8 Atodlen 1

Yn Atodlen 1, mewnosodir y rhesi canlynol o destun ar waelod y golofn sydd â'r teitl "Rhif yr is-ddeddf"—

“Is-ddeddf 9(a)(5)(i)
Is-ddeddf 9(a)(5)(ii)”



Lesley Griffiths

Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig, un o Weinidogion Cymru

29 Ionawr 2020

